Funded by UK Government

# Feasibility Study Fact Sheet

## What is a feasibility study?

A feasibility study researches and gathers all the information needed to consider whether a project idea will work. It will establish what the project involves, how much it costs and if it is sustainable. It will also help to explore the options available and suggest the best course of action. The result of the study will either show how the project idea is viable and will succeed, or it may show that the project won't work and can offer alternative options.

## What can a Feasibility Study be used for?

Feasibility Studies can be used for many purposes, including:

- Planning a new building (including identifying appropriate locations)
- Renovating/extending an existing building
- Plans for community green spaces
- Community facilities and fields
- Researching renewable energy options
- Community consultation exercises to gather feedback on your project ideas and plans

## What does a typical study include?

A typical Feasibility study may:

- Provide information on potential costings
- Consider legal and planning implications (where applicable)
- Conduct consultation and market research
- Include details regarding funding and/or potential future funding
- Propose other ways of approaching the project
- Produce a project plan
- Identify any project challenges
- Identify project benefits
- Help identify new opportunities

## What are the benefits of a feasibility study?

There are several benefits to feasibility studies, beyond the initial determination of whether a project will be likely to succeed. These may include some of those listed below, depending on the elements included in the brief for the consultant.

- Consideration of the pros and cons of the project before a significant amount of time and money is invested into it
- Shows how the project could be sustainable
- Shows how the project could be expanded in the future
- Shows large funders that you have thoroughly considered all the risks, benefits and likelihood of success

## How much will it cost?

The costs of a feasibility study will depend on the type of project you are looking to develop and the area in which you wish to develop it.

## How do I begin?

Firstly, identify exactly what it is that you want to know from the study and write a set of instructions (the brief), setting out what you need to know and what you want the consultant to do. Have clear outcomes (a description of the activities you want completed) and deliverables (something measurable to show that outcome has been achieved).

Next, prepare information to be shared with your consultant, to enable the study to take place. This will include:

- Information about your organisation, including;
  - the organisation's history
  - financial information (past & projected)
- Whether other ideas have been explored and what these are
- Evidence of whether there is a need for the project
- Identify potential risks

**Finally, share the details you have prepared with the specialist consultant and they will conduct the feasibility study for you!**

This project is funded by the UK government through the UK Shared Prosperity Fund

www.bridgendreach.org.uk

reach CYMUNEDAU GWYDN RESILIENT COMMUNITIES

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr BRIDGEND County Borough Council

POWERED BY LEVELLING UP

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

# Taflen Ffeithiau Astudiaeth Ddichonoldeb

## Beth yw astudiaeth ddichonoldeb?

Mae astudiaeth ddichonoldeb yn ymchwilio ac yn casglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen i ystyried a fydd syniad am brosiect yn gweithio. Bydd yn canfod beth mae'r prosiect yn ei gynnwys, faint mae'n ei gostio ac a yw'n gynaliadwy. Bydd hefyd yn helpu i archwilio'r opsiynau sydd ar gael ac awgrymu'r ffordd orau o weithredu. Bydd canlyniad yr astudiaeth naill ai'n dangos sut mae syniad y prosiect yn ymarferol ac am lwyddo, neu efallai y bydd yn dangos na fydd y prosiect yn gweithio a gall gynnig opsiynau eraill.

## Ar gyfer beth y gellir defnyddio Astudiaeth Ddichonoldeb?

Gellir defnyddio Astudiaethau Dichonoldeb ar gyfer sawl rheswm, gan gynnwys:

- Cynllunio adeilad newydd (gan gynnwys nodi lleoliadau priodol)
- Adnewyddu/ymestyn adeilad presennol
- Cynlluniau ar gyfer mannau gwyrdd cymunedol
- Cyfleusterau a chaeau cymunedol
- Ymchwilio i opsiynau ynni adnewyddadwy
- Ymarferion ymgynghori cymunedol i gasglu adborth ar eich syniadau a chynlluniau prosiect

## Beth mae astudiaeth nodweddiadol yn ei gynnwys?

Gall astudiaeth Ddichonoldeb nodweddiadol:

- Ddarparu gwybodaeth am gostau posibl
- Ystyried goblygiadau cyfreithiol a chynllunio (lle bo'n berthnasol)
- Cynnal ymgynghoriad ac ymchwil marchnad
- Cynnwys manylion am gyllid a/neu gyllid posibl yn y dyfodol
- Cynnig ffyrdd eraill o drin y prosiect
- Cynhyrchu cynllun prosiect
- Nodi unrhyw heriau prosiect
- Nodi manteision prosiect
- Helpu i ganfod cyfleoedd newydd

## Beth yw buddion astudiaeth ddichonoldeb?

Mae nifer o fuddion i astudiaethau dichonoldeb, y tu hwnt i'r penderfyniad cychwynnol ynghylch a fydd prosiect yn debygol o lwyddo. Gall y rhain gynnwys ambell un o'r rhai a restrir isod, yn dibynnu ar yr elfennau a gynhwysir yn y briff ar gyfer yr ymgynghorydd.

- Ystyried manteision ac anfanteision y prosiect cyn buddsoddi swm sylweddol o amser ac arian ynddo.
- Sut y gallai'r prosiect fod yn gynaliadwy
- Sut y gellid ehangu'r prosiect yn y dyfodol
- Gall astudiaeth ddichonoldeb ddangos i gyllidwyr mawr eich bod wedi ystyried yr holl risgiau a'r buddion a'r tebygolrwydd o lwyddo yn drylwyr

## Faint y bydd yn ei gostio?

Bydd costau astudiaeth ddichonoldeb yn dibynnu ar y math o brosiect rydych am ei ddatblygu a'r ardal yr hoffech ddatblygu'r prosiect ynddi.

## Sut ydw i'n dechrau arni?

Yn gyntaf, nodwch yn union beth yr hoffech ei wybod yn sgil yr astudiaeth ac ysgrifennwch gyfres o gyfarwyddiadau (y briff), gan nodi'n union yr hyn y mae angen i chi ei wybod a'r hyn yr hoffech i'r ymgynghorydd ei wneud. Dylai fod gennych ganlyniadau clir (disgrifiad o'r gweithgareddau y mae arnoch eisiau iddynt gael eu cwblhau) yn ogystal â rhywbeth mesuradwy i ddangos bod canlyniad wedi'i gyflawni.

Nesaf, paratowch wybodaeth i'w rhannu gyda'ch ymgynghorydd, i alluogi'r astudiaeth i ddigwydd. Bydd hyn yn cynnwys:

- Gwybodaeth am eich sefydliad, gan gynnwys;
  - hanes y sefydliad
  - gwybodaeth ariannol (yn y gorffennol a rhagamcan)
- A oes syniadau eraill wedi'u harchwilio a beth yw'r rhain
  Tystiolaeth i weld a oes angen y prosiect
- Nodi risgiau posibl

**Yn olaf, rhannwch y manylion rydych wedi'u paratoi gyda'r ymgynghorydd arbenigol a byddant yn cynnal yr astudiaeth ddichonoldeb ar eich rhan!**

Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

www.bridgendreach.org.uk

reach CYMUNEDAU GWYDN RESILIENT COMMUNITIES

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO